



DARLLENWCH
Numeri 21:4-9,
Ioan 3:1-2 ac 14-16




ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 3:14

Gwers 4 Moses:Y Sarff Bres

Bron ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd y bobl yn dal i grwydro yn yr anialwch. Pan ddaethon nhw'n agos i Wlad yr Addewid am y tro cyntaf, doedden nhw ddim yn credu y byddai Duw yn gallu eu harwain i mewn iddi, felly cosbodd Duw'r bobl drwy eu hanfon yn ôl i grwydro yn yr anialwch. Erbyn hyn, roedd cenhedlaeth newydd o blant yr Israeliaid wedi tyfu'n oedolion. Yn anffodus, roedden nhw'n dal i rwgnach yn erbyn Duw.

C Llanwch y bylchau gyda'u cwynion



3

Roedd hyn yn digio Duw!

C Defnyddiwch saethau i gysylltu dechrau a diwedd y brawddegau er mwyn esbonio beth ddigwyddodd wedyn.


Anfonodd Duw
Cafodd y bobl eu
Bu farw nifer o'r Israeliaid
Daeth y bobl
Gweddiodd Moses

brathu.
at Moses.
seirff gwenwynig.
ar Dduw.
o'u brathiadau.



5

C Beth gyffesodd y bobl pan ddaethant at Moses?



1

Roedd Duw yn falch pan gyffesodd y bobl eu troseddau.
Mae Duw eisiau i ninnau hefyd gyffesu ein troseddau (neu bechodau).

C Ar y polyn, tynnwch lun beth roedd Duw eisiau i Moses osod arno.



1

C O beth roedd y sarff wedi ei gwneud? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

aur haearn pren efydd pres

C Ysgrifennwch y geiriau sy'n dweud beth roedd yn rhaid i'r bobl ei wneud a beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny.

_____ a _____.



Flynnyddoedd lawer wedi hyn, soniodd yr Arglwydd Iesu am y stori hon wrth un dyn arbennig.


C Edrychwch ar Ioan 3: 1 a 2. Tanlinellwch yr atebion cywir:

Enw'r dyn oedd Saceus / Nicodemus / Ioan

Bu'n siarad â Iesu ar ganol dydd / yn y bore / liw nos.

Esboniodd yr Arglwydd Iesu y byddai Ef hefyd yn cael ei godi a'i osod ar ryw beth, yn union fel roedd Moses wedi gosod y sarff ar bolyn.

C Lliwiwch bob siâp sy'n cynnwys dot er mwyn darganfod ar beth fyddai Iesu yn cael ei ddrychafu, ac ysgrifennwch yr ateb ar y llinell isod.



Ar

Roedd yr Arglwydd Iesu'n gwybod mai dyma pam roedd Ef wedi dod i'r byd.

Mae pob un ohonom wedi pechu yn erbyn Duw, ond drwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu, mae Duw wedi darparu ffordd i ni gael ein hachub o'n pechodau.

C Llanwch y bylchau â'r geiriau cywir:

Drwy edrych ar y sarff ar y polyn, achubwyd yr Israeliaid rhag _____.

Credu ym marwolaeth Iesu yw'r unig beth sydd ei angen arnom er mwyn i ni gael ein hachub, yna cawn f _____ t _____.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120